# SOSBAN FACH (GWERIN)

*Traddodiadol*

## YNGLŶN Â'R GÂN HON

Sosban fach yw arwyddgan tîm rygbi'r Scarlets (Llanelli)

## THEMÂU/TESTUNAU

Cymru/anthem/cân werin/rygbi

## CYSYLLTIADAU ALLWEDDOL CWRICWLWM

Ieithoedd, Llafaredd a Chyfathrebu
Y Dyniaethau

## YSTYRIAETHAU SY'N BENODOL I'R DISGYBLAETH

### Cwmpas Lleisiol

8fed



### Ffurf Lleisiol

Unsain/ rhannau/annibynnol

### Elfennau Cerddorol


Gwead a pharhad

### Nodweddion Cerddorol

Unsain a harmoni tair rhan, defnydd mynych o rythmau dot ar strwythur pennill a chytgan (dwyran)

## Ymarferion Cynhesu

- Gofynnwch i'r dysgwyr godi'u dwy fraich yn raddol uwch eu pennau ac, wrth iddynt wneud hynny, anadlu i mewn, gan deimlo'u cawell asennau'n codi. Daliwch yr anadl i mewn am bedwar curiad, gan ostwng y ddwy fraich yn raddol a chwythu'r aer allan, a chadw'r frest i fyny.
- Gofynnwch i'r dysgwyr hymian seiren, gan symud i fyny ac i lawr o ran traw. Defnyddiwch symudiadau â'ch llaw i ddangos pryd y dylai'r dysgwyr symud o'r nodau uchel (llaw yn yr awyr) i'r nodau isel (llaw wrth eich pengliniau).
- Canwch frawddeg gyntaf y gân (gweler y rhythm nodweddiadol isod) ar un nodyn (E) ac yna gofyn i'r dysgwyr adleisio'r nodyn hwnnw yn ôl. Ailadroddwch hyn amryw o weithiau, gan fynd yn uwch yn raddol, a sicrhau bod yr holl ddysgwyr yn ateb yn fanwl gywir.




## Awgrymiadau o gysyltiadau allweddol i'r Meysydd eraill, themâu trawgwricwlaidd a/neu chyd-destynau lleol, cenedlaethol a rhyngwladol:

- Archwiliwch fywyd yn y gweithfeydd tunplat e.e. Aberdulais, Melingriffith a Phontardawe.
- Cysylltiadau â'r Rhyfel Byd Cyntaf – sut oedd bywyd Milwr yn y ffosydd?
- Pa ganeuon eraill sy'n cael eu hystyried yn gyfystyr â'r Rhyfel Byd Cyntaf?

**GRADDFA: CANOLRADD**

© CanSing Cymru 2022

# SOSBAN FACH

*Traddodiadol*

## Addysgu a Dysgu

1 Gwrandewch gyda'r dysgwyr ar bennill cyntaf y recordiad. Yna gwrandewch eto, gan ofyn i'r dysgwyr ymuno drwy glapio a siantio'r rhythm y tro hwn.
2 Pan fydd y dysgwyr yn gyfarwydd â'r geiriau, dechreuwch ddysgu alaw'r pennill (Rhan 1) yn unsain. Cenwch neu chwarae'r frawddeg gyntaf amryw o weithiau - yn ddigyfeiliant fyddai orau, neu gyda'r trac cefndir.
3 Ceisiwch weithio drwy'r pennill. Gwnewch yn siŵr fod yr holl ddysgwyr yn dilyn y rhan yn fanwl gywir, gan ganolbwyntio ar bwyntiau ymuno lle mae'r curiad i fyny, a'r rhythmau dot.
4 Perfformiwch y pennill gyntaf yn unsain gyda'r recordiad. Atgoffwch y dysgwyr i ganu drwy'r holl frawddegau a dal y nodyn hir ar ddiwedd pob brawddeg.
5 Cyflwynwch alaw'r gytgan – y rhan uchaf. Ailadroddir dau far cyntaf y gytgan (barau 9 i 10) fel dilyniant (barau 11 i 12) dau nodyn (3ydd) yn is. Sicrhewch nad yw ansawdd sain y dysgwyr yn dirywio wrth ganu'r nodau a ailadroddir ar ddechrau pob brawddeg.
6 Os yw'r dysgwyr yn cael anhawster gydag adran arbennig, gofynnwch iddynt wrando arnoch chi/y trac, ac ymuno unwaith eto.
7 Pan fydd y dysgwyr yn gyfarwydd ac yn hyderus â'r nodau â'r geiriau, anogwch hwy i ganu brawddegau cyfan ar un anadl, ac i ddal y nodauhirarddiwedd pob brawddeg.
8 Pan fydd yr holl ddysgwyr yn gallu canu'r alaw yn y pennill a'r gytganynhyderus, rhannwch y grŵp yn ddau grŵp llai – y grŵp 'Coch' a'r grŵp 'Piws'. Rhowch yr alaw i'r grŵp Coch (rhan 1) a'r harmoni (Rhan 2) i'r grŵp Piws.
9 Cyflwynwch Ran 2 y gytgan i'r grŵp Piws, frawddeg ar y tro. Mae'r frawddeg gyntaf yn dechrau dau nodyn yn is na Rhan 1 (C i A - 3ydd), ond mae'r rhythm yr un peth. O far 16 hyd diwedd y gytgan, bydd y ddwy ran yn canu'n unsain.
10 Ar ôl ymarfer y pennill a'r gytgan yn drylwyr, ceisiwch berfformio mewn dwy ran gyda'r recordiad.

## Sgiliau Cyfannol

- Mae i'r gân hon ddau bennill a thrydedd ran yn harmoni'r gytgan. Darllenwch drwy eiriau pennill 2 ac yna ymarfer gyda'r recordiad. Pan fydd y dysgwyr yn hyderus â'r ddau bennill a'r harmoni deulais yn y gytgan, rhannwch y grŵp yn dri grŵp llai a chyflwyno rhan y trydydd harmoni i un o'r grwpiau.
- Pan fydd y dysgwyr yn teimlo'n ddigon hyderus, ceisiwch berfformio'r gân heb unrhyw gyfeiliant, er mwyn annog y dysgwyr i wrando'n ofalus ar ansawdd y sain.

© CanSing Cymru 2022

# SOSBAN FACH

*Traddodiadol*

## Datganiadau o'r hyn sy'n bwysig:

*•Mae archwilio'r celfyddydau mynegiannol yn hanfodol er mwyn dyfnhau sgiliau a gwybodaeth gelfyddydol, ac mae'n galluogi dysgwyr i ddod yn unigolion chwilfydig a chreadigol•*
*•Mae creu yn cyfuno sgiliau a gwybodaeth gan dynnu ar y synhwyrau, ysbrydoliaeth a'r dychymyg•*

- Recordiwyd 'Sosban fach' gan Bryn Terfel ar ei albwm 'We'll keep a welcome'. Gwrandewch a rhowch werthusiad o'r recordiad hwn, a thrafod ei brif nodweddion. Gallai'r dysgwyr gymharu'r fersiwn hon â threfniant gan 'Here be dragons' ar eu halbwm 'Alcohol and rain'.

- Addysgwch gân werin Gymraeg arall, er enghraifft, 'Dacw nghariad'. Pan fydd y dysgwyr yn gyfarwydd â'r gân, gallant gymharu'r naill gân werin â'r llall a chynnig sylwadau ar y strwythur, y rhythm a'r traw.

- Rhannwch y dosbarth yn grwpiau llai a gofyn i bob grŵp gyfansoddi eu cân werin eu hunain. Cyfyngwch nodau'r alaw i DEFGA, ac anogwch y dysgwyr i gyfansoddi rhythm a geiriau gafaelgar. Rhowch gyfle i'r holl ddysgwyr berfformio o flaen y grwpiau eraill, ac i bob grŵp werthuso perfformiad y naill a'r llall.

## Asesu ar gyfer Dysgu:

*•Mae ymateb a myfyrio, fel artist, ac fel cynulleidfa, yn rhan hanfodol o ddysgu yn y celfyddydau mynegiannol•*

### Holi

**Adnodd: Ymagwedd peidio codi llaw**

- Rhowch enghraifft i mi o rythm a gyflwynir yn y gân hon. Ai rhythm dotiog, ynteu rythm cytbwys ydyw?
- Ai naws hapus ynteu drist sydd i'r gân werin hon? Eglurwch eich ateb.
- Enwch ganeuon gwerin eraill yr ydych yn eu gwybod. A oes unrhyw beth yn gyffredin rhwng 'Sosban fach' a'r caneuon hynny?

### Adborth

**Adnodd: Sylwadau yn unig**

Rhowch adborth penodol i grwpiau ar y sylw y maent yn ei roi i rythm. Efallai y bydd angen i chi arddangos y rhythmau dotiog ar ddechrau'r frawddeg gyntaf ac yn y gytgan, a'r nodau a ddelir yn hir ar ddiwedd brawddegau.

### Hunanesesiad / Asesiad gan gyfoedion

**Adnodd: Deialog dysgwr-i-ddysgwr**

Gofynnwch i'r dysgwyr gymryd tro i fod yn 'athro' wrth drafod y perfformiad ac i ofyn cwestiynau. Efallai y bydd angen i chi awgrymu rhai cwestiynau posibl, er enghraifft:

- A oedd y gân yn un anodd neu'n hawdd ei dysgu? Pam?
- Beth ydych chi'n ei hoffi/nad ydych chi'n ei hoffi ynglŷn â'r gân? Pam?

© CanSing Cymru 2022

**GRADDFA: HERIOL**